## Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL EUR 07-02(p2)

| |
|---|
| **Dyddiad: 5 Rhagfyr 2002** |
| **Amser: 2.00pm** |
| **Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 3&4** |
| **Teitl: Gweithgor Ehangu** |

**Diben**

1. Adroddiad ar bedwerydd cyfarfod y Gweithgor Ehangu a gynhaliwyd ar ddydd Iau 14 Tachwedd 2002.

   **Argymhelliad**

2. Aelodau i nodi cynnwys y papur.

   **Y Cefndir**

3. Yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin 2001, cytunodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar gylch gorchwyl drafft ar gyfer gweithgor i ystyried materion ehangu. Mae'r Gweithgor Ehangu wedi cyfarfod bedair gwaith erbyn hyn - 8 Hydref 2001, 16 Ionawr 2002, 15 Mai 2002 a 14 Tachwedd 2002.

   **Adroddiad ar Gyfarfod y Gweithgor Ehangu, 14 Tachwedd 2002.**

4. Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weinidog ei hunan fel Cadeirydd newydd y

   Grp. Gan fod y Grp yn dechrau ar ei ail flwyddyn, gwahoddwyd aelodau i ailedrych ar Gylch Gorchwyl y Grp a'i aelodaeth ac anfon unrhyw sylwadau at yr ysgrifenyddiaeth. Byddai Cadeirydd y Grp yn cytuno ar welliannau a gynigiwyd ac yn eu rhoi gerbron y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i'w cymeradwyo.

5. Ym mhapur WGE(04)01 cafodd y Grp y wybodaeth diweddaraf am y cynllun gweithredu ar gyfer ehangu ac amlinellodd yr amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n digwydd yn barhaus gyda'r gwledydd sy'n ymgeiswyr. Yn diyn trafodaethau'r Grp cytunwyd bod angen i'r cynllun fwrw ymlaen drwy:

- Dynnu sylw at y manteision i Gymru yn y tymor byr, canolig a hir;
- Annog yr amrywiaeth o ardaloedd a sectorau yng Nghymru i elwa ar y manteision hynny (ee datblygu cysylltiadau busnes a chyfleoedd i farchnata Cymru);
- Nodi cryfderau a gwendidau pob gwlad sy'n ymgeisydd;
- Rhoi trefniadau yn eu lle ar gyfer meithrin cysylltiadau ac ariannu cyfleoedd (Interreg IIIC)

Cytunwyd y byddai'r ysgrifenyddiaeth yn diwygio'r cynllun ac yn ei ddosbarthu i aelodau'r Grp i'w gymeradwyo.

1. Siaradodd Steve Pomeroy, o Uned Cabinet a Materion Cyfansoddiadol y Cynulliad, â'r Grp am ei gysylltiad â'r gynhadledd Datganoli a gynhaliwyd am ddau ddiwrnod yn Bratislava, Solfacia ym mis Hydref 2002.
2. Siaradodd Richard Mulcahy, o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, hefyd â'r Grp am ei gysylltiad ag agor Swyddfa Ranbarthol Silesia ym Mrwsel (ym mis Medi 2002) ac ymweliad astudio gan swyddogion o Silesia â Chymru ym mis Hydref i drafod cronfeydd strwythurol.
3. Roedd papur WGE(04)02 yn gyfle i'r Grp nodi'r materion a godwyd mewn seminar yn ddiweddar ar ddyfodol y cronfeydd strwythurol yng Nghymru. Cytunwyd y dylid datgan safbwynt Gymreig glir ar bolisi Cydlynu yn y dyfodol, er mwyn dylanwadu ar safbwynt y DU.
4. Cafodd yr eitem olaf ar yr agenda, sef Cynnig i Greu Sefydliad sy'n Gatalydd gan Richard Essex, Rhwydwaith Ehangu Ewropeaidd Cymru, (WGE(04)03) ei ohirio tan gyfarfod diweddarach ar gais Richard Essex. Nid oedd Mr Essex yn bresennol yn y cyfarfod.

**Cydymffurfio**

5. Mae Rheol Sefydlog 15 yn cwmpasu gweithgarwch y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Sefydlwyd y gweithgor ar sail pwerau'r Cynulliad o dan adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Grp ymgynghorol anffurfiol ydyw a'i brif orchwyl yw adrodd i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Cysylltwyd â Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad ac mae'n fodlon â'r agweddau cydymffurfio.

**Goblygiadau Ariannol**

6. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cynulliad yn codi o'r materion a drafodwyd yn yr adroddiad hwn.

**Mike German**

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru**
**Y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor:**